Teitl: **Ymateb Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, Adroddiad Dilynol ar Gymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru**

Dyddiad: **9 Rhagfyr 2009**

Gan: **Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

Crynodeb Gweithredol

Ym Medi 2009 cyflwynais ddiweddariad i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar y camau a gymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i'r adroddiad 'Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru' a gyhoeddwyd yn 2008.

Rwy'n falch o adrodd bod cynnydd wedi'i wneud o ran cyflenwi'r argymhellion allweddol, ond fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod yn yr adroddiad dilynol hwn, bydd llawer o'r gwaith hwn yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth.

Fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad gwreiddiol, rydym wedi cychwyn adolygiad o ddeunydd ac wedi ymgymryd ag archwiliad ac ymarferiad meincnodi ymarfer effeithiol ledled Cymru. Darparwyd swm o £118,000 ar gyfer cyflawni'r gwaith allweddol hwn, a fydd yn sicrhau cysondeb wrth ddiffinio dyslecsia, sut i'w adnabod, a darparu dulliau priodol ac effeithiol.

Rwyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl bychan o arbenigwyr ledled Cymru ym maes Anawsterau Dysgu Penodol ac mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos â Chymdeithas Dyslecsia Prydain (BDA) er mwyn gwella gwasanaethau.

Wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys rhai â dyslecsia a mathau eraill o anawsterau dysgu penodol, rhaid mabwysiadu agwedd ysgol-gyfan tuag at gynhwysiant ac yn rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Rwy'n croesawu'r ail adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ychwanegol a dderbyniodd y pwyllgor yn eu cyfarfod ym Medi ac rwy'n amlinellu fy ymateb i bob un o'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad dilynol hwn. Hoffwn eich cyfeirio hefyd at fy ymateb gwreiddiol i adroddiad y Pwyllgor yn 2008 a fy adroddiad cynnydd ym Medi 2009.

Argymhelliad 1 – Ymyrraeth Gynnar

1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddilyn argymhelliad Adolygiad Rose o ddarparu athro dyslecsia arbenigol i bob clwstwr o ysgolion cynradd, ac y dylid monitro'r Cyfnod Sylfaen wrth iddo ddatblygu er mwyn sicrhau y gellir adnabod symptomau dyslecsia mewn plant mor gynnar â phosibl.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Yn yr un modd ag adroddiad y Pwyllgor, mae adolygiad Rose yn nodi'r angen i athrawon fod ag ymwybyddiaeth o ddyslecsia ac anawsterau llythrennedd a'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i roi cefnogaeth effeithiol i blant a phobl ifanc. Un o argymhellion adolygiad Rose i'r Ysgrifennydd Gwladol oedd y dylai pob ysgol gael mynediad at athrawon â gwybodaeth o hyfforddiant dyslecsia arbenigol. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi ymateb i hyn trwy gytuno i ariannu 4,000 o athrawon yn seiliedig ar grwpiau lleol o ysgolion i ymgymryd â hyfforddiant ôl-raddedig wedi'i achredu gan Gymdeithas Dyslecsia Prydain. Mae'r cyrsiau a'r ceisiadau hyn am gyllid i'w gweinyddu yn y lle cyntaf gan yr Ymddiriedolaeth Anawsterau Dysgu Penodol - Dyslecsia, a'r Asiantaeth Datblygu Athrawon ar ôl hynny.

Mae'r argymhelliad hwn ychydig yn wahanol i argymhelliad gwreiddiol y pwyllgor. Byddai'n ymddangos yn fwy economaidd hyfyw ac yn rhoi gwell cysondeb o ran gwybodaeth ac arbenigedd ar draws bob ysgol i ddarparu mynediad at athrawon arbenigol ar sail grwpiau neu glystyrau o ysgolion lleol. Mae fy swyddogion wedi cael rhai trafodaethau rhagarweiniol â Chymdeithas Dyslecsia Prydain a'r Ymddiriedolaeth Anawsterau Dysgu Penodol er mwyn sefydlu'r ffordd ymlaen yng Nghymru.

Ein tasg gyntaf, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Dyslecsia Prydain, oedd adnabod y cyrsiau achrededig sydd ar gael ledled Cymru. Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain ar hyn o bryd yn adolygu achrediad cyrsiau ar gyfer darparwyr cyrsiau newydd gan edrych ar gynyddu darpariaeth mewn cyrsiau presennol.

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon sydd â chymwysterau arbenigol i dderbyn datblygiad proffesiynol parhaus. Roeddwn yn falch o nodi bod Cymdeithas Dyslecsia Prydain, yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor ym Medi 2009 yn awgrymu bod enghreifftiau o ymarfer da iawn ar draws awdurdodau lleol Cymru o ran cefnogi eu staff drwy'r broses hon.

Bydd fy swyddogion yn cyfarfod â fy ngrŵp arbenigol, Cymdeithas Dyslecsia Prydain a'r Ymddiriedolaeth Anawsterau Dysgu Penodol yn gynnar yn 2010 i'm cynghori ynghylch y dewisiadau sydd ar gael i fynd â'r argymhelliad hwn yn ei flaen. Pe baem yn ariannu dull o'r fath, bydd yn ofynnol i bob cwrs fodloni'r safonau sy'n gynwysedig yng nghynllun achredu Cymdeithas Dyslecsia Prydain a bydd angen ystyriaeth bellach i weinyddu a chyllido cwrs

o'r fath. Byddaf yn diweddaru'r pwyllgor yn y man ynghylch canfyddiadau'r grŵp.

Datblygwyd modiwl ar Ymyrraeth Gynnar o fewn Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, gyda'r nod o arfogi pob ymarferydd â'r sgiliau angenrheidiol i adnabod arwyddion posibl o angen am gymorth ychwanegol. Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar y modiwl Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd eisoes wedi'i gyhoeddi.

Mewn sawl achos, bydd amgylchedd llai ffurfiol y Cyfnod Sylfaen yn fonws cadarnhaol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, - llawer ohonynt yn fwy astud ac agored i ddysgu yn y lleoliadau llai ffurfiol. Mae'r Cyfnod Sylfaen, felly, yn debygol o wella'u cynnydd a chyflenwi'r ddarpariaeth benodol a wnaed ar gyfer amryw ohonynt beth bynnag.

Mae llawer o fanteision cynnar y Cyfnod Sylfaen eisoes i'w gweld. Ni fydd ei effaith i'w weld yn llawn am rai blynyddoedd eto, a dim ond wrth i blant symud drwy eu cyfnod addysg ac ymlaen i oedolaeth y daw ei fanteision i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'n bwysig cynnal gwerthusiad trylwyr, gan gynnwys dadansoddiad gwerth am arian. Bydd i'r gwerthusiad ddiben ffurfiannol/datblygiadol yn yr ystyr y bydd yn ffordd o adnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, er mwyn goleuo'r cyfeiriad i'r dyfodol.

Wrth fframio'r cwestiynau i'w gofyn, cymerir priodoleddau a chefndiroedd disgyblion unigol i ystyriaeth lle bo modd. Mae'r rhain yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol; iaith gyntaf y cartref, ethnigrwydd ayyb.

Goblygiadau Ariannol:

Daw cost hyfforddiant o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhellion 2 a 3 - Hyfforddiant

2. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu cyrsiau i hyfforddi athrawon ac i ddatblygu arbenigedd mewn dyslecsia ac nid mewn anghenion dysgu ychwanegol yn unig.

3. Dylai cyrsiau hyfforddiant ar ddyslecsia fod ar gael i'r holl staff sy'n gweithio â phlant yn yr ystafell ddosbarth.

Ymateb: Derbyn

Mae amrediad o gyrsiau ar gael ledled Cymru i alluogi athrawon i ddatblygu arbenigedd mewn dyslecsia. Fel yr awgrymwyd ynghynt, byddwn yn ystyried sut orau i rannu arbenigedd yn dilyn trafodaeth â Chymdeithas Dyslecsia Prydain.

Rwy'n derbyn bod angen darparu a chynnal hyfforddiant arbenigol ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth athrawon a gwella'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Rhaid cofio, fodd bynnag fod plant â dyslecsia yn aml ag anawsterau eraill yn cydfodoli â hynny, ac mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o amrediad o anghenion dysgu ychwanegol er mwyn diwallu anghenion y plentyn cyfan.

Ym mis Hydref 2007 fe wnaethom lansio cwrs e-ddysgu dwyieithog ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn rhan o gwrs hyfforddi arloesol i athrawon a staff cymorth. Nod y cwrs yw gwella dealltwriaeth a gwybodaeth athrawon a staff cymorth sy'n gweithio â disgyblion ag AAA a chodi ymwybyddiaeth o'r ffactorau ynghlwm wrth ddatblygu ysgol gynhwysol.

Mae un o fodiwlau'r cwrs e-ddysgu dwyieithog yn ymwneud ag Anawsterau Dysgu Penodol, gan gynnwys dyslecsia a chydsymud datblygiadol. Diben y modiwl hwn yw darparu strategaethau cymorth yn y dosbarth i athrawon a staff cymorth. Mae'n cynnig cyngor ar y modd y gall dyslecsia ei amlygu ei hun yn y dosbarth, a sut y gall athrawon a staff cymorth reoli'r anhawster yn effeithiol.

Fel yr adroddais ym Medi, ar gyfer athrawon sy'n ceisio achrediad, mae'r cwrs dwyieithog hwn wedi'i achredu ar lefel ôl-radd 6. Mae'r cwrs hefyd ar gael i bob athro ysgol a rhai sy'n cofrestru â sefydliadau Addysg Uwch. Mae'r adnodd ar gael i bob ysgol yng Nghymru drwy'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a gall staff ei ddefnyddio ar-lein yn eu hiaith ddewisol.

Rwyf hefyd wedi comisiynu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynhyrchu deunyddiau hyfforddi dwyieithog i gefnogi plant a phobl ifanc ag

Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y deunyddiau hyn ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac athrawon yn eu cyfnod Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Bydd y deunyddiau'n cynnwys sesiynau hyfforddi ac adnoddau parod i'w defnyddio gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol ar eu rhaglenni datblygu proffesiynol a byddant ar gael ar DVD. Rhagwelir y bydd y deunyddiau hyn ar gael yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Goblygiadau Ariannol:

Dim

Argymhellion 4 a 5 – Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

4. Pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer sgrinio a rhoi cymorth i blant â dyslecsia, gan gynnwys arian ar gyfer safonau arferol at ddibenion profi, fel yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Rydym yn awgrymu y gallai cydweithredu rhwng awdurdodau lleol fod yn rhan o'r ateb o ran diwallu anghenion lleol ac o ran darparu gwasanaeth mwy cyson drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd i'r afael â diffyg darpariaeth hyfforddiant dyslecsia drwy gyfrwng y Gymraeg i ysgolion a gwneud yr hyfforddiant yn fwy fforddiadwy.

Ymateb: Derbyn

Ychwanegwyd pynciau ychwanegol at yr adolygiad o ddeunydd, gan gynnwys y deunydd trawsieithyddol ar ddyslecsia (ar gyfer siaradwyr/darllenwyr uniaith a dwyieithog mewn gwahanol ieithoedd) a gwaith presennol ar ddyslecsia ymysg siaradwyr/darllenwyr Cymraeg.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, mewn ymateb i'r prinder offerynnau cyfrwng Cymraeg ar gyfer sgrinio ac asesu, rwyf wedi comisiynu Prifysgol Bangor i ddatblygu'r deunyddiau hyn yn seiliedig ar safonau arferol. Darparwyd £90,000 dros y tair blynedd nesaf ar gyfer datblygu offerynnau asesu yn Gymraeg ar gyfer plant 11-15 a 2-7 mlwydd oed, i broffilio plant â gwahanol gyflyrau.

Rydym wedi ariannu'r gwaith o gyfieithu'r Profion Darllen Cymru Gyfan i'r Gymraeg, gan ddarparu corff o destunau a deunyddiau cyfrwng Cymraeg i bob awdurdod, wedi'u haddasu'n arbennig at ddefnydd plant â nam ar eu golwg.

Er mwyn sicrhau cydweithredu pellach ledled Cymru, fe wnaethom hefyd osod cymalau penodol yn Adran 191 o Ddeddf Addysg 2002 i annog awdurdodau lleol i gydweithio i ddarparu gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig lle byddai'n fwy effeithlon iddynt wneud hynny.

Bydd yr ymarfer meincnodi yn rhoi enghreifftiau pellach i ni o arferion da y gellir eu lledaenu ar draws Cymru a hwyluso gwell cydweithio.

Fel y nodwyd ynghynt, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu datblygiad cwrs e-ddysgu dwyieithog ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n rhan o gwrs hyfforddiant arloesol ar gyfer staff cymorth yn ogystal ag athrawon, drwy'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu. Byddwn yn ystyried hyfforddiant arbenigol i athrawon yn gynnar yn 2010, a bydd hyfforddiant arbenigol cyfrwng Cymraeg, wrth reswm, yn rhan o'n hystyriaethau.

Goblygiadau Ariannol:

Dim

Argymhelliad 6 – Cymorth i Rieni, Athrawon a Disgyblion

6. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu Prosiect Dyslecsia Cymru i gynnal llinell gymorth ddwyieithog am ddim i ddefnyddwyr yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae dwy elusen yn y DU, Cymdeithas Dyslecsia Prydain a Dyslexia Action yn cynnig llinellau cymorth am ddim i bobl â dyslecsia, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Rwy'n ymwybodol, fodd bynnag, mai Llinell Gymorth Prosiect Dyslecsia Cymru yw'r unig wasanaeth cyfrwng Cymraeg a bod cyllid y prosiect wedi dod i ben yn ddiweddar. Mae fy swyddogion yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwasanaeth llinell gymorth ddwyieithog a byddaf yn adrodd ymhellach i'r Pwyllgor.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a gweithwyr proffesiynol yn derbyn cymorth a chyngor yn eu hiaith ddewisol, fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer AAA.

Goblygiadau Ariannol:

Dim

Argymhelliad 7 – Grŵp Cyfeirio Allanol

7. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ailgydio yn y broses o gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y trafodaethau a'r cynigion ar gyfer rhoi ein hargymhellion ar waith, gan gynnwys rhoi cyfle i ymarferwyr Cymraeg eu hiaith fod yn rhan o waith y Llywodraeth wrth roi cymorth i bobl â dyslecsia.

Ymateb: Derbyn

Er bod cyfarfodydd pellach o'r grŵp gorchwyl ehangach sy'n ymdrin ag anawsterau dysgu penodol yn aros am ganlyniad yr adolygiad o ddeunydd, rwyf hefyd wedi sefydlu grŵp bychan o arbenigwyr ym maes dyslecsia. Maent yn parhau i gydweithio'n agos â fy swyddogion, gan fy nghynghori ynghylch datblygiadau polisi i'r dyfodol.

Goblygiadau Ariannol:

Dim

Argymhelliad 8 - Data

8. Er mwyn bod yn sail gywirach i'r gwaith o fonitro ac adolygu cynnydd disgyblion yn yr ysgol, rydym yn argymell y dylai'r lefelau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ac yn genedlaethol i adnabod pobl â dyslecsia ac i roi cymorth iddynt, sef y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), gael eu mireinio er mwyn gallu adnabod dyslecsia ar wahân i anawsterau dysgu penodol.

Ymateb: Derbyn

Eglurais yn fy niweddariad ym Medi mai y llynedd (2008/2009) oedd y flwyddyn gyntaf i ddata CYBLD gae ei gasglu ar ôl cyflwyno'r canllawiau diwygiedig i'r awdurdodau lleol yn 2007.

Yn ogystal â'n galluogi i ddeall natur anghenion disgybl, bydd y diwygiadau i'r drefn o gasglu data hefyd yn ein galluogi i ddeall graddau'r cymorth a ddarperir. Fel y nodais yn fy adroddiad diweddaru, rhagwelir y bydd gwell trefn o gasglu data yn galluogi awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr addysg eraill i adnabod, cefnogi a chynllunio darpariaeth briodol i ddisgyblion ag AAA, a thrwy hynny, ddarparu dull cyson o ddiwallu eu hanghenion.

Mae swyddogion wedi sefydlu grŵp mewnol i ystyried a oes angen i ni ddiwygio'r categori Anawsterau Dysgu Penodol ymhellach o fewn y CYBLD er mwyn dadansoddi anawsterau penodol ar wahân, hy dyslecsia, dyspracsia a dyscalcwlia. Fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth i reolau datgelu a phryderon na ellir dod i gasgliadau cadarn ar sail data ar gyfer niferoedd bach o unigolion.

Goblygiadau Ariannol:

Dim.

Argymhelliad 9 - Casgliadau

9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu targedau ar gyfer holl ysgolion ac awdurdodau lleol Cymru er mwyn iddynt ddod yn ddyslecsia-gyfeillgar erbyn 2016.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn datblygu Dyfarniad Ysgolion Cynhwysol i Gymru, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu a'i dreialu gan awdurdodau lleol yng Nghonsortiwm Ardal De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Mae'r Dyfarniad yn cwmpasu'r holl anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys dyslecsia, gan adeiladu ar sbardunau cenedlaethol a lleol allweddol ar gyfer addysg yng Nghymru, gan ddarparu proses i alluogi ysgolion i ddatblygu, cydgysylltu a rheoli darpariaeth i bob plentyn a pherson ifanc ag amrediad eang o anghenion amrywiol.

Rydym wedi cefnogi cynllun Ysgolion Dyslecsia-gyfeillgar Cymdeithas Dyslecsia Prydain gan ddarparu £25,000 ar gyfer cynhyrchu '*Acheiving Dyslecsia Schools Pack Version 5*'.

Dylai'r Pwyllgor nodi fod yna sawl menter debyg ar gyfer gwahanol fath o anghenion, gan gynnwys Ysgolion Awtistiaeth-gyfeillgar, Dyfarniad Her Plant a Phobl Ifanc Mwy Abl a Thalentog, y Dyfarniad Sgiliau Sylfaenol, ymysg eraill. Mater i ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethu yw ymgymryd â'r Gwobrau Ansawdd hyn. Ein nod wrth ddatblygu'r Dyfarniad Ysgolion Cynhwysol yw dod â'r holl gynlluniau hyn ynghyd o dan un fantell gan sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn cyd-destun Ysgol Gynhwysol yn rhan o'n Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Rwy'n ymwybodol i'r argymhelliad hwn gael ei awgrymu gan Gymdeithas Dyslecsia Prydain yn y papur a dderbyniodd y Pwyllgor yn Rhagfyr. Roeddwn yn falch o nodi bod Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn cydnabod "y gwaith rhagorol sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn ledled Cymru". Maent hefyd yn nodi bod "arbenigedd a phroffesiynoldeb yr athrawon a'r gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn yng Nghymru yn adnodd hynod o gadarnhaol a gwerthfawr"

Mae hwn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei harneisio yn rhan o'r Dyfarniad Ysgolion Cynhwysol. Bydd fy swyddogion yn parhau i gefnogi a gweithio gyda Chymdeithas Dyslecsia Prydain i sicrhau bod ysgolion yn ddyslecsia-gyfeillgar yn rhan o'r agenda ehangach Ysgolion Cynhwysol.

Goblygiadau Ariannol:

Dim